Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	28 Ebrill 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr Adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adroddiad dilynol Archwilio Mewnol ar Denantiaeth Tai

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith oedd yn cyd-fynd ag adroddiad Archwilio Mewnol ar Denantiaeth Tai dyddiedig Tachwedd 2019 a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn yn Ionawr 2020.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Is-bennawd (dilëwch yn ôl yr angen)

2.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau o ran trefniadau Tenantiaeth Tai ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd isel, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio am adroddiad cynnydd. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu yr archwiliad a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd o ran y cynllun gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rhoddodd ein hadolygiad o Denantiaeth Tai, adroddiad dyddiedig Tachwedd 2019, sgôr sicrwydd isel o ganlyniad i'r gwendidau sylweddol a nodwyd.

4.2. Nododd yr adroddiad dilynol fod cynnydd wedi ei wneud o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith, ond o ganlyniad i effaith Covid-19 mae rhai dyddiadau gweithredu wedi eu hymestyn. Mae cynnydd wedi ei wneud o ran y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, gyda sawl cam gweithredu wedi eu cwblhau. Mae Adroddiad Dilynol Archwilio Mewnol, sy'n rhoi manylion ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar waith, ar gael yn Atodiad 1.

4.3. Yn seiliedig ar ganlyniadau ein hadolygiad dilynol, rydym yn darparu sgôr sicrwydd canolig.

4.4. Fe fydd Archwilio Mewnol yn parhau i ddilyn y camau gweithredu sydd ar ôl i'w cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn addas.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.